
Adolygiad o'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol teleffoni

Diweddaru'r rheolau ar flychau ffôn cyhoeddus

DATGANIAD:

Dyddiad cyhoeddi: 8 Mehefin 2022

1. Trosolwg

O dan y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol (USO) teleffoni, mae'n ofynnol i BT a KCOM ddarparu gwasanaethau teleffoni, gan gynnwys blychau ffôn cyhoeddus, ar draws y DU. Mae'r defnydd o flychau ffôn cyhoeddus wedi dirywio'n sylweddol, yn bennaf o ganlyniad i'r defnydd cynyddol o ffonau symudol. Ond i'r rhai sydd heb fynediad i linell dir neu ffôn symudol gweithredol, neu mewn ardaloedd sydd â darpariaeth symudol wael, gall blwch ffôn cyhoeddus fod yr unig ddewis ar gyfer gwneud galwadau i ffrindiau a theulu, llinellau cymorth ac, yn bwysicaf oll, cael mynediad at wasanaethau brys. Felly, rydym am ddiogelu'r blychau y mae eu hangen fwyaf rhag cael eu tynnu ymaith.

Bydd newid rhwydwaith ffonau'r DU i dechnoleg Protocol Rhyngwrwyd (IP) hefyd yn cael effaith sylweddol ar y ddarpariaeth o flychau ffôn cyhoeddus yn y dyfodol. Bydd yr hen rwydwaith ffôn yn cael ei ymddeol erbyn mis Rhagfyr 2025, felly bydd angen uwchraddio blychau ffôn cyhoeddus gydag offer newydd i sicrhau y byddant yn dal i weithio. Yng ngoleuni'r datblygiadau hyn, rydym yn diweddarau ein rheolau fel y gall BT a KCOM gael gwared ar flychau ffôn cyhoeddus nad oes eu hangen bellach ac ar yr un pryd, diogelu'r blychau hynny y mae pobl yn dal i ddibynnu arnynt. Rydym hefyd wedi gwneud newidiadau eraill i foderneiddio a symleiddio'r rheolau USO teleffoni.

Yr hyn rydym wedi'i benderfynu - yn gryno

Rheolau cryfach i sicrhau bod blychau ffôn cyhoeddus y mae eu hangen o hyd wedi'u diogelu rhag cael eu tynnu ymaith. Yn flaenorol, roedd awdurdodau lleol yn gallu rhoi feto ar dynnu'r blwch ffôn cyhoeddus olaf mewn ardal ymaith, ond mae gennym bryderon y cymhwyswyd y feto hwn yn anghyson ar draws y DU. Rydym wedi disodli'r feto gyda set glir a chyson o feini prawf a ddylai ddiogelu'r blychau hynny y mae eu hangen fwyaf rhag cael eu tynnu ymaith (megis y rhai mewn ardaloedd sydd heb ddarpariaeth symudol lawn), ac ar yr un pryd rydym hefyd yn caniatáu i flychau nad oes eu hangen mwyach gael eu tynnu ymaith. Mae'n rhaid i BT a KCOM ymgynghori o hyd ag awdurdodau lleol ar dynnu'r blychau olaf mewn ardal ymaith.

Mwy o hyblygrwydd yn y gwasanaethau a ddarperir gan flychau ffôn cyhoeddus. Mae BT yn cynnig amrywiaeth o ddyfeisiau eraill ar y stryd sy'n darparu gwasanaethau fel galwadau am ddim, gwefru ffonau a wi-fi am ddim – ond nid yw'r dyfeisiau hyn yn cyfrif fel blychau ffôn cyhoeddus ar hyn o bryd. Er mwyn adlewyrchu anghenion parhaus defnyddwyr, ac i gefnogi BT a KCOM i gynnig gwasanaethau gwell i ddefnyddwyr, rydym wedi diwygio ein rheolau fel bod mwy o hyblygrwydd yn y gwasanaethau a gynigir o flychau ffôn cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys caniatáu i bob galwad fod yn rhad ac am ddim a dileu'r gofyniad i gynnig galwadau i mewn (pan fydd pob galwad allan yn rhad ac am ddim).

Sicrhau bod blychau ffôn cyhoeddus yn parhau i weithio os bydd toriad trydan. Ar hyn o bryd, gellir defnyddio blychau ffôn cyhoeddus o hyd i wneud galwadau pan fydd toriad trydan yn yr ardal. Er mwyn sicrhau bod hyn yn parhau ar ôl i rwydweithiau gael eu newid i IP, bydd angen gosod offer batri newydd mewn blychau ffôn cyhoeddus. Rydym wedi gwneud newidiadau fel ei bod yn ofynnol i BT a KCOM sicrhau bod gan flychau ffôn cyhoeddus y mae'n debygol y bydd eu hangen yn achos toriad trydan osodiad batris fel y gellir eu defnyddio o hyd i wneud galwadau mewn argyfwng am o leiaf tair awr.

Cefndir

- 1.1 Sefydlwyd y USO teleffoni presennol, sy'n mynnu darpariaeth gwasanaethau teleffoni ledled y DU, gan gynnwys blychau ffôn cyhoeddus (PCB), mewn deddfwriaeth yn 2003. Ei nod yw sicrhau bod gwasanaethau teleffoni'n cael eu darparu i'r rhai mewn ardaloedd anghysbell a gwledig neu gwsmeriaid sy'n agored i niwed, na fyddai'r farchnad efallai'n dewis eu gwasanaethu fel arall.
- 1.2 Mae BT a KCOM wedi'u dynodi fel y darparwyr gwasanaeth cyffredinol teleffoni, ac fel rhan o'u rhwymedigaethau USO, maent yn darparu bron 20,000 o PCB ar draws y DU ar hyn o bryd.
- 1.3 Mewn blynyddoedd diweddar mae esblygiad technoleg, datblygiadau yn y farchnad ac anghenion newidiol defnyddwyr wedi arwain at newidiadau sylweddol yn y defnydd o PCB. Yn benodol, mae'r cynnydd mewn argaeledd gwasanaethau symudol a'r defnydd ohonynt wedi arwain at ostyngiad serth yn y defnydd o PCB, gyda nifer y galwadau yn gostwng o tua 800m o funudau yn 2002 i 4m yn 2021/22.
- 1.4 Ar yr un pryd, gwyddom fod rhai PCB yn parhau i ddarparu gwasanaeth pwysig, yn enwedig i'r rhai nad oes ganddynt fynediad i ffôn symudol gweithredol neu'r rhai sydd mewn ardaloedd lle na ellir dibynnu ar ddarpariaeth symudol. Felly, rydym am sicrhau y bydd y PCB hynny y mae eu hangen o hyd yn cael eu diogelu rhag cael eu tynnu ymaith.

Ein cynigion blaenorol

- 1.5 Ym mis Tachwedd bu i ni amlygu pryderon nad oedd y broses i dynnu PCB ymaith yn gweithio cystal ag y gallai. Bu i ni gynnig dileu'r broses feto lleol a'i disodli â set o feini prawf feto cryfach a fyddai'n sicrhau bod PCB y mae eu hangen o hyd wedi'u diogelu rhag cael eu tynnu ymaith. Bu i ni ymgynghori hefyd ar nifer o gynigion eraill i ddiweddarau a moderneiddio rhwymedigaethau gwasanaeth cyffredinol teleffoni ar BT a KCOM.
- 1.6 Derbyniom amrywiaeth o ymatebion i'n hymgyngoriad gan ddarparwyr cyfathrebiadau, awdurdodau lleol, ASau, grwpiau defnyddwyr, elusennau, grwpiau diwydiant ac unigolion.¹ Roedd rhai ymatebwyr yn cefnogol o'n cynigion, a chododd rai eraill bryderon, gan gynnwys o ran dileu'r feto lleol a nifer y PCB a allai gael eu tynnu ymaith.

Ein penderfyniad

- 1.7 A ninnau wedi ystyried yn ofalus yr holl sylwadau a dderbyniwyd, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynigion. Rydym wedi gwneud rhai newidiadau i egluro ein hymagwedd ac wedi diwygio'r arweiniad mewn rhai meysydd er mwyn cymryd y sylwadau a dderbyniom i ystyriaeth.

¹ Mae'r holl ymatebion anghyfrinachol ar gael ar ein [gwefan](#).

- 1.8 Rydym wedi penderfynu rhoi meini prawf cryfach ar waith i ddiogelu PCB rhag cael eu tynnu ymaith lle mae eu hangen o hyd. Byddai'r meini prawf yn diogelu'r PCB olaf ar safle² lle:
- nad oes darpariaeth gan bob un o'r pedwar darparwr rhwydwaith symudol; neu
 - maent wedi'u lleoli mewn ardal sydd â nifer uchel o ddamweiniau neu achosion o hunanladdiad; neu
 - le mae 52 neu fwy o alwadau wedi cael eu gwneud ohonynt dros y 12 mis diwethaf (h.y. gan gyfateb i un alwad yr wythnos); neu
 - y ceir tystiolaeth arall o angen rhesymol am y PCB.
- 1.9 Bydd yn ofynnol i BT a KCOM ymgynghori â chyrrff lleol perthnasol ynghylch unrhyw gynnig i dynnu'r PCB olaf ar safle ymaith y mae'n ystyried nad yw'n bodloni'r meini prawf uchod, ac mae'n rhaid iddynt gymryd unrhyw sylwadau gan y cyrrff hynny i ystyriaeth. Bydd y broses ddiwygiedig hon yn caniatáu i BT a KCOM dynnu ymaith PCB nad oes eu hangen mwyach, yn ôl y meini prawf newydd, ac ar yr un pryd diogelu'r PCB pwysig sy'n weddill (gan gynnwys y 1,400 o PCB sydd mewn ardaloedd â darpariaeth symudol wael).³
- 1.10 Bydd hyn yn golygu na fydd rhai ciosgau coch traddodiadol yn cael eu cadw i wneud galwadau ohonynt mwyach. Bydd awdurdodau lleol sydd am gadw ciosg coch yn parhau i gael yr opsiwn i ddefnyddio cynllun 'Mabwysiadu Ciosg' BT.⁴ O dan y cynllun, gall awdurdodau lleol (a chynghorau plwyf neu elusennau lleol) brynu ciosgau coch lleol am ffi o £1. Ers i BT lansio'r cynllun, mae dros 6,000 o ciosgau wedi'u mabwysiadu a'u trawsnewid i ystod o wahanol ddefnyddiau, megis llyfrgell neu osod peiriant diffibrilio.
- 1.11 Ochr yn ochr â'r newidiadau hyn i'r broses ar gyfer tynnu PCB ymaith, rydym hefyd yn gwneud nifer o newidiadau i'r gofynion o ran gwasanaethau a phrisiau PCB, gan gynnwys:
- diwygio'r gofyniad i PCB fod â phrisiau cenedlaethol unffurf er mwyn rhoi hyblygrwydd i BT a KCOM i gynnig galwadau am ddim o'u PCB (e.e. mae dyfeisiau 'Hwb Stryd' BT eisoes yn cynnig galwadau am ddim i holl linellau tir a rhifau symudol y DU);⁵
 - dileu'r gofyniad i PCB ddarparu gwasanaeth galwadau i mewn lle cynigir pob galwad allan am ddim⁶;
 - dileu'r gofyniad i PCB gynnig galwadau i rifau cyfradd premiwm a rhyngwladol; a
 - dileu'r gofyniad i 70% o PCB dderbyn arian parod, ac yn lle hynny, ei gwneud yn ofynnol i BT a KCOM asesu a oes angen parhaus am ddefnyddio arian parod mewn PCB cyn dileu cyfleusterau talu gydag arian parod.
- 1.12 Ar hyn o bryd, gellir defnyddio PCB o hyd i wneud galwadau pan fydd toriad trydan oherwydd bod y llinellau'n cael eu pweru o'r gyfnewidfa ffôn leol. Ni fydd hyn yn wir mwyach unwaith y bydd PCB yn cael eu newid i weithredu dros rwydweithiau IP. Er hynny, rydym yn cydnabod y gall pobl sy'n defnyddio PCB fynd yn fwy dibynnol arnynt os bydd

² Diffinnir safle fel pellter cerdded 400 metr o'r PCB agosaf nesaf.

³ Yn seiliedig ar ddadansoddiad Ofcom o PCB BT olaf ar safle, gan ddefnyddio data o'n hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd 2022.

⁴ [Cynllun Mabwysiadu Ciosg | BT Business](#)

⁵ [Hybiau Stryd | Ciosgau Digidol Rhyngweithiol | BT Business](#)

⁶ Pan ddileer galwadau i mewn, rydym hefyd wedi mynnu bod yn rhaid i PCB feddu ar fecanwaith i sicrhau na all y galwr ddatgysylltu galwadau brys.

Adolygiad o'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol teleffoni

torriad trydan, o ystyried y tebygolrwydd cynyddol o orfod gwneud galwadau brys o dan y fath amgylchiadau.

- 1.13 Felly, rydym yn gosod gofyniad ar BT a KCOM i sicrhau bod datrysiad ar waith (e.e. uned batri wrth gefn) ar gyfer unrhyw PCB y mae'n debygol y dibynnir arno os bydd torriad trydan, fel y rhai mewn ardaloedd heb ddarpariaeth symudol neu sy'n profi toriadau trydan hir yn aml. Mae'n rhaid i'r datrysiad hwn alluogi i alwadau brys gael eu gwneud am o leiaf dair awr, er, rydym hefyd yn disgwyl y bydd BT a KCOM yn cymryd camau ychwanegol i sicrhau cydnherthedd PCB pan fydd toriadau trydan hirach fel a ddigwyddodd gyda'r stormydd diweddar.⁷
- 1.14 Rydym hefyd wedi nodi ein barn y byddai'n briodol dileu'r gofyniad am ddarparu gwasanaethau ffacs o'r USO. Bydd angen i Lywodraeth y DU ddiwygio'r ddeddfwriaeth er mwyn i hyn ddigwydd. Mae Llywodraeth y DU ar hyn o bryd yn ystyried a ddylid gwneud y newid hwn.
- 1.15 Bydd y newidiadau rydym yn eu gwneud i'r rheolau ar BT a KCOM yn dod i rym o heddiw – nodir y rheolau yn Atodiad 1 y datganiad hwn. Rydym hefyd wedi cyhoeddi arweiniad yn Atodiad 2 ar sut rydym yn disgwyl i BT a KCOM gydymffurfio â'r rheolau newydd.

⁷ Er enghraifft, gallai'r fath fesurau gynnwys trefnu i fatris ychwanegol gael eu danfon at PCB neu alluogi pŵer wrth gefn ar ffurf generadur symudol.